Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

Technoleg Iechyd Cymru
Cynllun Strategol Cyfathrebu
2023-2025

Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

Cynnwys

Cefndir 2
Nodau strategol 3
Rhanddeiliaid 4
Mewnwelediad cynulleidfa 5
Amcanion y cynllun strategol cyfathrebu 6
- Piler 1: Nodi 6
- Piler 2: Arfarnu 7
- Piler 3: Mabwysiadu 8
- Piler 4: Ymgysylltu 9

Sianeli cyfathrebu mewnol 10
Sianeli cyfathrebu allanol 12
Adnoddau cyfathrebu 13

Cefndir

Yn 2018 comisiynodd Technoleg Iechyd Cymru Pagoda Public Relations i ddatblygu strategaeth gyfathrebu yn seiliedig ar fewnwelediad cynulleidfa gyda grwpiau rhanddeiliaid allweddol.

Nod y prosiect oedd cytuno ar negeseuon allweddol, nodi sianeli cyfathrebu priodol a datblygu cynllun gweithredu gyda metrigau gwerthuso wedi'u cytuno.

Roedd yr amcanion a'r camau gweithredu hyn y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cynllun yn seiliedig ar fewnwelediad cynulleidfa a gasglwyd drwy arolwg ar-lein a chyfweliadau dros y ffôn gyda rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys clinigwyr a chynrychiolwyr o GIG Cymru, diwydiant, a'r llywodraeth.

Ers cyhoeddi'r strategaeth gyfathrebu gyntaf, mae Technoleg Iechyd Cymru wedi ehangu'n sylweddol gwmpas ei waith a'r ystod o randdeiliaid y mae'n cydweithio â hwy mewn ymateb i anghenion newidiol y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Wrth i gwmpas ei waith ehangu, mae wedi mireinio ei broses arfarnu ymhellach ac wedi dechrau'r broses o archwilio'r sefyllfa o ran mabwysiadu ei ganllawiau yng Nghymru.

Yn 2021 cyhoeddodd HTW Gynllun Strategol sy'n nodi cynlluniau uchelgeisiol i gynyddu ei allbwn o ran arfarnu tystiolaeth a chynhyrchu canllawiau.

Nododd adolygiad cynnydd pum mlynedd annibynnol a gyhoeddwyd yn 2022 fod HTW yn rhan unigryw, y gellir ymddiried ynddo ac a werthfawrogir o'r dirwedd arloesi yng Nghymru a bod rhanddeiliaid sy'n gweithio gyda HTW yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei arbenigedd wrth nodi, arfarnu a mabwysiadu technolegau iechyd a'i weld fel sefydliad a lywodraethir yn dda.

O ystyried yr ehangiad yng nghwmpas gwaith HTW a'i bartneriaethau cydweithredol, crëwyd y strategaeth gyfathrebu newydd hon. Mae'r cynllun strategol hwn yn nodi amcanion sydd â'r nod o gefnogi nodau strategol HTW ar draws ei bileri gwaith allweddol fel y nodir yn y Cynllun Strategol 2021-2025:

- Nodi
- Arfarnu
- Mabwysiadu
- Ymgysylltu

Er mwyn llywio'r strategaeth a gwerthuso'r lefelau presennol o ymwybyddiaeth brand ymhlith rhanddeiliaid, comisiynodd HTW Beaufort Research i gynnal arolwg gyda rhanddeiliaid allweddol HTW. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 23 Mehefin a 14 Gorffennaf 2022 a chyflwynodd 20% o'r rhanddeiliaid y cysylltwyd â hwy ymatebion (60 o bobl).

Er bod maint sampl yr arolwg yn nodweddiadol isel ar gyfer arolygon o'r math hwn, mae'r ymatebion gan ein rhanddeiliaid allweddol yn rhoi mewnwelediad a gwybodaeth werthfawr yr ydym wedi'u defnyddio i lywio'r strategaeth gyfathrebu ddiwygiedig hon.

Negeseuon HTW allweddol

Gweledigaeth HTW yw bod yn sefydliad HTA o'r radd flaenaf sy'n hwyluso'r gwaith o nodi, arfarnu a mabwysiadu technolegau iechyd a gofal cymdeithasol arloesol sy'n cynnig yr addewid mwyaf i sicrhau gwell iechyd, lles a gwerth i bobl Cymru.

Ei genhadaeth yw ysgogi gwelliannau yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth, drwy ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i lywio penderfyniadau ar y defnydd priodol o arloesiadau technoleg iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Y gwerthoedd craidd sy'n sail i waith HTW yw ansawdd, ymatebolrwydd a chydweithio.

Trwy ei weithgareddau cyfathrebu, nod HTW yw cyfleu'r negeseuon allweddol canlynol am y sefydliad:

- Awdurdodol, gan dynnu ar y dystiolaeth a'r arbenigedd gorau sydd ar gael.
- Cydweithredol, gan weithio gyda phartneriaid ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thechnoleg.
- Ymateb i anghenion a diddordebau defnyddwyr gwasanaeth, darparwyr iechyd a gofal a phartneriaid technoleg ledled Cymru.

Nodau strategol

Mae Cynllun Strategol 2021-2025 HTW yn amlinellu'r nodau strategol canlynol:

Nodi: Nodi'r technolegau y disgwylir iddynt gael effaith fawr ar wasanaethau iechyd a gofal a rhoi'r budd mwyaf i bobl Cymru

Arfarnu: Sicrhau newid sylweddol y swm allbynnau tystiolaeth HTW, gan hyrwyddo dull cenedlaethol cydgysylltiedig o wneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth ar dechnolegau nad ydynt yn feddyginiaeth ledled Cymru.

Mabwysiadu: Gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, drwy ledaenu canllawiau cenedlaethol seiliedig ar dystiolaeth sy'n annog mabwysiadu technolegau y disgwylir iddynt gael effaith fawr yng Nghymru

Ymgysylltu: Hyrwyddo gwell dealltwriaeth a defnydd o allbynnau HTA HTW gyda rhanddeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol allweddol yng Nghymru.

Mae'r strategaeth a'r camau gweithredu yn y ddogfen hon wedi'u cynllunio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion blaenoriaeth ar gyfer 2023-25.

Rhanddeiliaid

Mae rhanddeiliaid allweddol HTW yn perthyn i'r categorïau canlynol:

- Byrddau GIG, ymddiriedolaethau a darparwyr gofal cymdeithasol
- Gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol
- Llywodraeth Leol a Chenedlaethol
- Aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- Sector technoleg
- Sefydliadau cleifion

Mae rhwydweithiau clinigol, saith Bwrdd Iechyd Lleol GIG Cymru a'r tair Ymddiriedolaeth Arbenigol yn ganolog i sicrhau bod argymhellion HTW yn cadw statws 'mabwysiadu neu gyfiawnhau' ac yn ffynhonnell ar gyfer pynciau yn y dyfodol.

Mae cydweithio â phartneriaid ym maes gofal cymdeithasol, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, ymarferwyr gofal cymdeithasol ac aelodau fforwm rhanddeiliaid HTW, yn ein galluogi i dargedu arloesiadau gofal cymdeithasol ar gyfer eu harfarnu.

Mae ymgysylltu'n agos â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn allweddol i sicrhau bod HTW yn parhau i fod yn rhan annatod o'r dirwedd arloesi yng Nghymru a'i fod yn chwarae rôl allweddol wrth gyflawni nodau Strategaeth Arloesi Integredig Cymru a gyhoeddir yn fuan.

Mae'r sector technoleg - sy'n cynnwys gweithgynhyrchwyr technoleg ac arloeswyr - yn ffynhonnell bwysig o atgyfeiriadau pynciau ar gyfer HTW ac mae potensial i gynyddu'n sylweddol ymgysylltiad â'r sector. Mae'r byd academaidd yn ffynhonnell bwysig arall ar gyfer atgyfeirio pynciau.

Yn olaf, mae cleifion, defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofalwyr, y cyhoedd a sefydliadau cleifion yn hollbwysig ar gyfer creu dealltwriaeth o'r hyn y mae HTW yn ei wneud ac effaith ei waith ar ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru.

Mewnwelediad cynulleidfa

Rhagymadrodd

Comisiynodd HTW Beaufort Research i gynnal arolwg gyda'i randdeiliaid i fesur ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhanddeiliaid o'i rôl a'i waith. Cynlluniodd Beaufort arolwg ar-lein mewn ymgynghoriad â HTW a'i rannu â 300 o randdeiliaid drwy e-bost.

Roedd bron i hanner (47%) sampl y rhanddeiliaid a gwblhaodd yr arolwg yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol, tra bod un o bob wyth arall naill ai'n gomisiynwyr gofal iechyd / yn gwneud penderfyniadau (13%) neu'n gynrychiolwyr Byrddau Iechyd (12%). Dim ond nifer fach iawn o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr arolwg oedd o'r categorïau eraill.

Amcanion yr arolwg

Nod cwestiynau'r arolwg oedd canfod y canlynol:

- Dealltwriaeth rhanddeiliaid o rôl a gwaith HTW.
- Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r broses Asesu Technoleg Iechyd.
- Manteision a rhwystrau canfyddedig cyflwyno pwnc i HTW ei arfarnu.
- Sut hoffai rhanddeiliaid glywed gan HTW.

Amcanion cyfathrebu ac ymgysylltu â blaenoriaeth sy'n deillio o'r arolwg:

Nodwyd y canlynol fel amcanion blaenoriaeth yn dilyn dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg:

- Codi proffil HTW ymhlith rhanddeiliaid ac egluro ei rôl a'i gylch gwaith.
- Gwella dealltwriaeth o broses arfarnu HTW.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision cyflwyno pynciau ar gyfer arfarniad HTW a sut i gyflwyno pwnc.
- Codi ymwybyddiaeth o statws 'mabwysiadu neu gyfiawnhau' canllawiau HTW ar gyfer byrddau iechyd, ymddiriedolaethau arbenigol, y sector gofal cymdeithasol a sefydliadau eraill.
- Creu mwy o gyfleoedd i ryngweithio'n uniongyrchol â rhanddeiliaid drwy gyflwyniadau wyneb yn wyneb, cyfarfodydd a digwyddiadau.
- Datblygu rhaglen o weithgareddau cyfathrebu i gefnogi recriwtio staff.

- Blaenoriaethu creu cynllun cyfathrebu mewn argyfwng yng ngoleuni'r Ymchwiliad COVID-19 sy'n mynd rhagddo a fydd yn nodi sut y bydd HTW yn ymateb i unrhyw gyhoeddusrwydd negyddol posibl neu ymholiadau gan y cyfryngau ynglŷn â gwerth, uniondeb neu gywirdeb ei waith ar COVID-19 ac yn gyffredinol.
- Adnewyddu cynnwys, dyluniad a defnyddioldeb gwefan HTW a sicrhau ei bod yn bodloni gofynion hygyrchedd Llywodraeth Cymru.

Amcanion y cynllun strategol cyfathrebu

Piler 1: Nodi

Amcan	Gweithredu	Canlyniad
Cynyddu dealltwriaeth o fanteision cyflwyno pwnc i'w arfarnu	• Amlinellu manteision cyflwyno pwnc i'w arfarnu yn yr adran 'Awgrymu Pwnc' ar wefan HTW. Amlinellu'r manteision allweddol a darparu dyfyniadau adborth rhanddeiliaid fel tystiolaeth. • Chwilio am gyfleoedd i fynychu digwyddiadau diwydiant a'r sector cyhoeddus i adeiladu proffil HTW ymhlith rhanddeiliaid presennol a darpar randdeiliaid. • Trefnu digwyddiad ar gyfer cynrychiolwyr y diwydiant mewn partneriaeth â MediWales a Grŵp Defnyddwyr y Diwydiant HTW i godi ymwybyddiaeth o waith HTW a manteision cyflwyno pwnc. • Cynyddu ymgysylltiad â'r byd academaidd a sefydliadau sy'n cynrychioli diwydiant drwy gyflwyno erthyglau i'w lledaenu drwy eu sianeli newyddion e.e. cylchlythyrau a mynychu digwyddiadau perthnasol. • Gweithio gyda gwefannau newyddion arbenigol i godi ymwybyddiaeth o HTW a manteision cyflwyno pynciau i'w harfarnu. • Cyflwyno deunydd i'w rannu drwy sianeli cyfathrebu sefydliadau partner ynglŷn â manteision cyflwyno pynciau i'w harfarnu. • Cynhyrchu a lledaenu astudiaethau achos ar ffurf fideo o ganllawiau sy'n cynnwys cyfweliadau â'r atgyfeiriwr pwnc am fanteision cyflwyno pwnc.	Cynnydd mewn atgyfeiriadau pynciau o ansawdd uchel Cynnydd mewn cyfraddau trosi pynciau
Sicrhau bod y pynciau a gyflwynir yn mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol â blaenoriaeth yng Nghymru	• Sicrhau cefnogaeth gan uwch swyddogion gweithredol yn y sectorau iechyd a gofal i annog atgyfeiriadau pynciau. • Cynnal galwadau am bynciau â thema yn chwarterol gan dargedu pynciau sy'n diwallu anghenion blaenoriaeth iechyd a gofal cymdeithasol a nodwyd drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, Rhwydweithiau Cydweithredol GIG Cymru ac aelodau o Fforwm Rhanddeiliaid HTW.	Canllawiau HTW wedi'u targedu i gael yr effaith fwyaf posibl ar ganlyniadau iechyd a gofal

	• Cyfathrebu'n rheolaidd parthed galwadau am bynciau â gyda ffynonellau posibl o bynciau newydd e.e. rhwydweithiau clinigol, y byd academaidd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid gofal cymdeithasol. • Cyfarwyddwr a Chadeirydd yn sicrhau slotiau cyflwyno rheolaidd mewn cyfarfodydd strategol (e.e. Prif Weithredwyr GIG Cymru a Chyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol).	
Sicrhau bod y pynciau a gyflwynir yn bodloni'r meini prawf ar gyfer arfarnu	• Cynhyrchu a lledaenu fideo animeiddio sy'n esbonio sut mae pynciau'n cael eu nodi i'w harfarnu a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno pwnc. • Creu llenyddiaeth y gellir ei rhannu mewn digwyddiadau diwydiant yn esbonio meini prawf dewis pynciau a blaenoriaethu HTW. • Darparu hyfforddiant ac arweiniad i staff HTW i gefnogi sgyrsiau gyda chynigwyr pwnc posibl. • Sicrhau bod yr holl wybodaeth am feini prawf yn rhan o ddeunydd cyfathrebu i gefnogi galwadau am bynciau â thema. • Llunio 10 o 'Awgrymiadau Da ar gyfer atgyfeirio pwnc llwyddiannus' yn seiliedig ar ddadansoddiad ôl-weithredol o gyflwyniadau yn manylu ar y rhwystrau a brofwyd, beth i'w osgoi, sut i symud ymlaen, beth weithiodd yn dda a beth na weithiodd cystal.	Mwy o effeithlonrwydd – llai o amser staff HTW yn cael ei dreulio ar bynciau anaddas
Codi ymwybyddiaeth o'r broses o gyflwyno pwnc i'w arfarnu	• Lledaenu fideo animeiddio 'Awgrymu Pwnc' yn rheolaidd drwy sianeli cyfathrebu HTW. • Chwilio am gyfleoedd i gyflwyno mewn cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol.	Cynnydd mewn atgyfeiriadau pwnc o ansawdd uchel

Piler 2: Arfarnu

Amcan	Gweithredu	Canlyniad
Cynyddu dealltwriaeth o broses arfarnu HTW	• Hwyluso ymgynghoriad cyhoeddus ar Ganllaw Proses Arfarnu drafft ar-lein HTW a'i ddosbarthu'n briodol ar ôl ei gwblhau. • Holl ddeunydd cyfathrebu allanol HTW i ddefnyddio 'iaith glir' i egluro prosesau cymhleth. • Cynhyrchu a lledaenu fideo animeiddio yn egluro'r broses arfarnu pwnc. • Gan ddefnyddio egwyddorion 'iaith glir', creu deunydd print i'w ddosbarthu mewn digwyddiadau perthnasol yn esbonio proses arfarnu HTW ar ffurf graffeg a chwestiynau cyffredin priodol. • Trefnu sesiynau cymhorthfa ar-lein ddwywaith y flwyddyn gan wahodd cynigwyr pwnc posibl i gyfarfod un i un ag ymchwilydd i drafod y broses arfarnu. • Creu deunyddiau hyfforddi HTA (gan gynnwys Economeg Iechyd) (cyflwyniadau, fideos a dogfennau) a'u lledaenu mewn digwyddiadau a chyfarfodydd priodol. • Cynhyrchu cynlluniau cyfathrebu a lledaenu ar gyfer holl Ganllawiau HTW a gyhoeddir gyda manylion rhanddeiliaid a sianeli cyfathrebu perthnasol.	Cynnal mwy o allbwn arfarnu tystiolaeth a chanllawiau HTW

	• Creu adran cwestiynau cyffredin ar wefan HTW sy'n cwmpasu'r broses arfarnu, meini prawf ar gyfer cyflwyno pwnc, statws canllawiau cenedlaethol HTW a'r berthynas/gwahaniaeth rhwng HTW a NICE.	
Codi ymwybyddiaeth o fanteision cymryd rhan yn y broses arfarnu	• Cynhyrchu a lledaenu fideos astudiaethau achos effaith yn cynnwys cyfweliadau â chynigwyr pwnc am eu profiad o gymryd rhan yn y broses arfarnu. • Arddangos a chyflwyno mewn digwyddiadau diwydiant a'r sector cyhoeddus lle mae cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o fanteision y broses arfarnu. • Cynhyrchu blogiau ac eitemau golygyddol ar gyfer cyhoeddiadau cyfryngau arbenigol perthnasol a sianeli cyfathrebu allanol sy'n disgrifio manteision cymryd rhan yn y broses arfarnu. • Cynhyrchu deunydd ar gyfer sefydliadau sy'n cynrychioli datblygwyr technoleg i'w ledaenu drwy eu sianeli. • Cynhyrchu datganiad effaith blynyddol ac adroddiad blynyddol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau hygyrch sy'n dangos effaith canllawiau cenedlaethol HTW.	Cynnydd mewn atgyfeiriadau pynciau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y system iechyd a gofal
Gwella dealltwriaeth o rôl HTW yn y dirwedd iechyd a gofal cymdeithasol ehangach	• Cyhoeddi astudiaethau achos o ganllawiau HTW yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wefan HTW ac yn allanol, gan bwysleisio sut mae'r canllawiau'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal penodol yng Nghymru.	Cefnogi penderfyniadau polisi iechyd a gofal cymdeithasol sy'n hanfodol o ran amser

Piler 3: Mabwysiadu

Amcan	Gweithredu	Canlyniad
Codi ymwybyddiaeth o statws 'mabwysiadu neu gyfiawnhau' canllawiau HTW	• Creu cynlluniau cyfathrebu a lledaenu ar gyfer pob Canllaw HTW a sicrhau bod cynnwys y deunydd cyfathrebu yn pwysleisio statws y canllawiau. • Hyrwyddo'n rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol y neges bod gan ganllawiau HTW 'statws mabwysiadu neu gyfiawnhau'.	Cynnydd mewn mabwysiadu canllawiau HTW
Cynyddu ymwybyddiaeth o broses archwilio mabwysiadu HTW	• Creu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer lledaenu Adroddiad Archwilio Mabwysiadu HTW blynyddol a sicrhau bod hwn yn cael ei anfon at randdeiliaid perthnasol. • Cynhyrchu a lledaenu fideo animeiddio yn egluro mabwysiadu a'r broses archwilio.	Mwy o gyfranogiad mewn archwiliadau mabwysiadu HTW
Creu cyfleoedd i broffilio canllawiau sydd wedi'u mabwysiadu yng Nghymru	• Cynhyrchu a lledaenu astudiaethau achos ar ffurf fideo ac yn ysgrifenedig y gellir eu rhannu drwy wefan, cyfryngau cymdeithasol a sianeli cyfathrebu allanol HTW.	Cynnydd mewn mabwysiadu canllawiau HTW

	• Nodi canllawiau sydd â photensial ar gyfer diddordeb ehangach a chwilio am gyfleoedd ar gyfer cyhoeddi ar gyfryngau arbenigol.	

Piler 4: Ymgysylltu

Amcan	Gweithredu	Canlyniad
Adeiladu proffil HTW ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ehangach	• Adnewyddu gwefan HTW fel ei bod yn haws ei defnyddio, yn hygyrch, yn ddeniadol yn weledol ac yn haws llywio drwyddi. • Comisiynu archwiliad hygyrchedd o wefan HTW. • Sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir ar wefan HTW ac mewn postiadau cyfryngau cymdeithasol yn hygyrch ac yn gallu cael ei deall gan gynulleidfa amrywiol. • Cynhyrchu'r holl gynnwys ar-lein, negeseuon cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau HTW yn ddwyieithog fel eu bod yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg ac yn bodloni Safonau'r Gymraeg. • Cynyddu ymgysylltiad â chyfryngau cymdeithasol gan gynnwys drwy gynllunio ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd â 'diwrnodau ymwybyddiaeth' cenedlaethol, cefnogi gweithgarwch cyfathrebu gan sefydliadau partner a phostio mwy o ddenydd gweledol a rhyngweithiol. • Cynyddu nifer dilynwyr Twitter a LinkedIn HTW drwy greu postiadau cyfryngau cymdeithasol deniadol a pherthnasol gan ddefnyddio graffeg a deunydd ysgrifenedig. • Codi proffil HTW ar LinkedIn, gyda'r nod o ddenu mwy o ddilynwyr, yn enwedig darpar gyflwynwyr pwnc o'r sector technoleg. • Adeiladu proffil Cyfarwyddwr a Chadeirydd HTW fel sylwebyddion ar asesu technoleg iechyd drwy flogiau a darnau mynegi barn ar wefan HTW ac mewn cyhoeddiadau cyfryngau arbenigol. • Cynyddu cyfleoedd i rannu newyddion HTW â sianeli cyfathrebu sefydliadau partner (e.e. cylchlythyr arloesi Llywodraeth Cymru, cylchlythyrau byrddau iechyd a diweddariadau newyddion Gofal Cymdeithasol Cymru). • Swyddog cyfathrebu HTW i gymryd rhan mewn cyfarfodydd 'pennaeth cyfathrebu' wythnosol Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith HTW. • Noddi digwyddiadau a gwobrau perthnasol i gynyddu amlygrwydd brandio HTW, os bydd cyllidebau'n caniatáu (e.e. Gwobrau MediWales Connects a MediWales). • Rhannu deunydd cyfathrebu â chyrff HTA y DU a rhyngwladol (e.e. SHTG, NICE, HIQA, INAHTA, HTAi) • Adnewyddu strwythur a fformat Adroddiad Blynyddol HTW i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn fodern ac yn hygyrch tra'n disgrifio gweithgareddau ac effaith HTW yn effeithiol. • Hyrwyddo cyfranogiad HTW wrth ddatblygu Strategaeth Arloesi Integredig Cymru a chyflwyno'r Cynllun Gweithredu Arloesi Iechyd a Gofal.	Cynnydd mewn atgyfeiriadau pynciau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y system iechyd a gofal

	• Chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu ag ysgolion meddygol Cymru i godi ymwybyddiaeth o waith HTW ymhlith clinigwyr cyn iddynt gymhwyso drwy sesiynau hyfforddi HTA101 a thrwy ddarparu cynnwys newyddion i sianeli cyfathrebu	
Gwella canfyddiadau o HTW a chwalu'r syniad ei fod yn 'bell neu'n amwys'.	• Chwilio am gyfleoedd i ryngweithio wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid newydd a phosibl mewn digwyddiadau diwydiant, cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gweithdai. • Datblygu cynnwys cylchlythyr chwarterol HTW a chwilio am gyfleoedd i gynyddu tanysgrifiad.	Cydweithio dyfnach a mwy ystyrlon gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.
Sicrhau bod rhestrau cysylltiadau HTW yn gyfredol, bod rhanddeiliaid yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod pob un cysylltiad â rhanddeiliaid yn cydymffurfio â'r GDPR.	• Sefydlu cronfa ddata CRM ar gyfer holl gysylltiadau HTW a sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu rheoli'n effeithiol. • Cynnal asesiad budd cyfreithlon sy'n cwmpasu'r holl gyfathrebu â rhanddeiliaid HTW a diweddaru'n flynyddol.	Gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd rheoli a chyfathrebu â rhanddeiliaid
Monitro effeithiolrwydd sianeli cyfathrebu HTW	• Defnyddio dadansoddeg Twitter a LinkedIn i fonitro ymgysylltiad â phostiadau cyfryngau cymdeithasol a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio ymgyrchoedd yn y dyfodol. • Monitro traffig ac ymgysylltu â gwefan HTW gan ddefnyddio Google Analytics. • Defnyddio offer dadansoddeg MailChimp i dracio diddordeb tanysgrifwyr mewn erthyglau cylchlythyr a hysbysiadau am ganllawiau. • Cynnal adolygiadau chwarterol o ddata dadansoddeg i benderfynu ar ddefnydd sianeli cyfathrebu yn y dyfodol.	Ymgyrchoedd cyfathrebu HTW yn gwella'n barhaus er mwyn sicrhau'r effaith gorau posibl.
Hyrwyddo HTW fel sefydliad rhagorol i weithio iddo	• Mynychu ffeiriau swyddi prifysgol. • Cyflenwi cynnwys am HTW i wefannau a chyhoeddiadau adrannau gyrfaoedd prifysgolion. • Ymgysylltu â phrifysgolion drwy gyfryngau cymdeithasol. • Chwilio am gyfleoedd i ddeunydd HTW gael ei gyhoeddi ar wefannau newyddion recriwtio.	Denu a chadw staff dawnus o ansawdd uchel

Sianeli cyfathrebu mewnol

Bydd HTW yn lledaenu newyddion, hysbysiadau am ganllawiau a gwybodaeth drwy'r sianeli cyfathrebu allanol a mewnol canlynol ac yn monitro metrigau allweddol:

Cyfryngau cymdeithasol

Ym mis Ionawr 2023 roedd gan HTW 2,045 o ddilynwyr ar Twitter a 417 ar LinkedIn.

Mae yna hefyd sianel YouTube HTW lle mae astudiaethau achos fideo ac animeiddiadau yn cael eu postio. Ym mis Ionawr 2023 roedd 1,985 wedi ymweld â hi.

Cylchlythyr Chwarterol HTW

Roedd gan gylchlythyr chwarterol HTW 549 o danysgrifwyr ym mis Ionawr 2023. Mae pob cylchlythyr yn cynnwys newyddion HTW, adran ar newyddion a digwyddiadau sydd i ddod a dolenni i Adroddiadau Archwilio Pwnc (TERs) a gyhoeddwyd yn ystod y chwarter blaenorol. Caiff ei anfon at danysgrifwyr trwy MailChimp.

Gwefan HTW

Mae HTW wedi comisiynu datblygwr gwe allanol i adnewyddu gwefan bresennol HTW er mwyn gwella hygyrchedd a'i gwneud yn haws ei defnyddio, yn haws ei llywio ac yn ddeniadol i'r llygad. Nodwedd allweddol a fydd yn cael ei gwella ar y wefan wedi'i hadnewyddu fydd y swyddogaeth chwilio, gan roi'r gallu i ddefnyddwyr chwilio am adroddiadau a chanllawiau yn ôl meysydd arbenigol a chwilio am gynnwys ar unrhyw bwnc drwy far chwilio'r hafan. Bydd cyfle hefyd i ddefnyddwyr gofrestru diddordeb mewn pynciau penodol a chael gwybod am ffyrdd o gymryd rhan yng ngwaith HTW gan gynnwys mynychu cyfarfodydd cyhoeddus.

Mae HTW wedi ymrwymo i sicrhau bod ei wefan yn bodloni safonau hygyrchedd Llywodraeth Cymru ac mae wedi comisiynu archwiliad hygyrchedd o'i wefan ar ei newydd wedd. Bydd hyn yn ystyried a yw'r wefan yn cyrraedd safonau hygyrchedd AA ac a yw'n hygyrch i ystod amrywiol o ddefnyddwyr.

Adroddiad Blynyddol HTW

Bydd adroddiad blynyddol HTW yn disgrifio'r gwaith yn y flwyddyn flaenorol i wella iechyd a gofal cymdeithasol i bobl Cymru. Bydd yn cynnwys adrannau ar effaith canllawiau, nodi, arfarnu, mabwysiadu ac ymgysylltu, cyflawni cyllideb, cyfeiriad ar gyfer y dyfodol a thîm HTW. Byddwn yn creu Adroddiad Blynyddol digidol rhyngweithiol sy'n fwy deniadol i ddarllenwyr. Unwaith y caiff ei gyhoeddi, bydd cynllun lledaenu priodol yn sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei anfon at rwydwaith rhanddeiliaid HTW.

Hysbysiadau am Ganllawiau HTW

Anfonir hysbysiadau am ganllaiwau drwy MailChimp at 360 o danysgrifwyr ym mis Ionawr 2023.

Maent yn cynnwys gwybodaeth am y canllawiau a gyhoeddwyd, dolen i'r canllawiau llawn a'r gallu i rannu'r wybodaeth â chysylltiadau drwy e-bost.

Bwletin Chwarterol

Bydd Bwletin Chwarterol yn parhau i gael ei gynhyrchu mewn partneriaeth â Grŵp Technolegau Iechyd yr Alban ac yn cynnwys adroddiadau a chanllawiau HTW a gyhoeddwyd yn ystod y chwarter hwnnw, yn ogystal ag asesiadau technoleg iechyd diweddar a gynhaliwyd gan asiantaethau ledled y DU, Iwerddon ac Ewrop. Er mwyn hysbysu darllenwyr ei fod wedi'i gyhoeddi, bydd dolen i'r adroddiad yn cael ei chyhoeddi mewn stori newyddion ar wefan HTW ac mewn postiad ar y cyfryngau cymdeithasol.

Sianeli cyfathrebu allanol

Cyfryngau print ac ar-lein

Bydd HTW yn parhau i anfon datganiadau i'r wasg ynglŷn â newyddion, galwadau am bynciau ac arweiniad i gyhoeddwyr cyfryngau arbenigol. Hyd yma mae'r rhain wedi'u cyhoeddi gan y canlynol:

- Western Mail
- Business News Wales
- HealthTechWorld
- Health Tech News
- MedTech Innovation News
- Caring Times
- Assistive Technology Today
- HomeCare Insight
- THISS (newyddion ar gyfer gweithwyr symudedd a mynediad proffesiynol)

Byddwn yn ymestyn hyn i wefannau newyddion mwy cyffredinol, yn ogystal â chyhoeddiadau arbenigol sy'n ymdrin ag arloesi mewn technoleg iechyd.

Arddangosfeydd a digwyddiadau diwydiant

Mae HTW yn aelod o rwydwaith MediWales a bydd yn mynychu digwyddiadau sydd wedi'u hanelu at gynhyrchwyr technoleg, arloeswyr, clinigwyr, a chynrychiolwyr eraill o'r sector iechyd a gofal. Mae hefyd wedi noddi categori yng ngwobrau blynyddol MediWales a bydd yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gael y budd gorau o'i aelodaeth.

Sianeli cyfathrebu sefydliadau partner

Bydd HTW yn parhau i anfon datganiadau i'r wasg a phecynnau cymorth cyfathrebu i'w dosbarthu gan bartneriaid allanol gan gynnwys:

- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- MediWales
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cylchlythyr Arloesi Llywodraeth Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru

Adnoddau cyfathrebu

Mae HTW yn cyflogi Rheolwr Cyfathrebu llawn amser a Chynorthwyydd Cymorth Busnes a Chyfathrebu.

Mae hefyd yn cael cymorth gan Ymddiriedolaeth Iechyd Felindre, yn bennaf ar gyfer gwaith cyfieithu Cymraeg ond hefyd rhywfaint o gyngor ar gyfathrebu.

Byddwn yn ystyried creu Grŵp Sefydlog ar Gyfathrebu (fel yr argymhellwyd yn adolygiad strategaeth gyfathrebu HTW blaenorol) i hwyluso cyflawni'r strategaeth gyfathrebu hon yn effeithlon. Gallai aelodaeth grŵp gynnwys aelodau o grwpiau allweddol HTW e.e. y Panel Arfarnu a Grŵp Sefydlog Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd. Gall y rolau hyn gael eu cylchdroi ymhlith aelodau'r grŵp. Byddai'r grŵp hwn yn cael ei gadeirio a'i arwain gan uwch aelod o HTW ac yn cynnwys o leiaf un ymchwilydd/economegydd iechyd HTW. Ei rôl fydd blaenoriaethu gweithgarwch cyfathrebu yn unol ag amcanion strategol, creu amserlen ar gyfer camau gweithredu ac olrhain ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y strategaeth a'r cynllun.